



1 Tachwedd 2021

Annwyl Gyfeillion,

GORCHYMYN GWEITHDREFN DDATBLYGU (YMGYNGHOREION) (CYMRU) **(DIWYGIADAU AMRYWIOL) 2021 – AWDURDODAU TÂN AC ACHUB**

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori 'Awdurdodau Tân ac Achub yn dod yn ymgynghoreion statudol yn y broses rheoli datblygu' ar 28 Gorffennaf 2020. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd wedi cael ei gyhoeddi ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Mae'r llythyr hwn yn esbonio'r newidiadau a wnaed i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ('DMPWO') a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ('DNSPWO') (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'y Gorchymynion Gweithdrefn') mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

[Gosodwyd Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu \(Ymgynghoreion\) \(Cymru\) \(Diwygiadau Amrywiol\) 2021](#) ('y Gorchymyn') ar 27 Hydref. Mae'r Gorchymyn yn diwygio'r Gorchymynion Gweithdrefn i wneud Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn 'ymgynghoreion statudol' (gan gynnwys cyfeiriadau at 'ymgynghoreion arbenigol') ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau yn ystod y camau cyn-ymgeisio ac ar ôl i gais gael ei gyflwyno. Bydd hyn yn berthnasol i geisiadau cynllunio y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) yn penderfynu yn eu cylch a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol lle mai Weinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r meini prawf ar gyfer ymgynghori â 'Chorff Adnoddau Naturiol Cymru' (Cyfoeth Naturiol Cymru) ynghylch materion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd o ganlyniad i ddisodli map cyngor datblygu presennol TAN 15 â Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau i TAN 15 yn fy llythyr dyddiedig 28 Medi.

Nodir effaith ymarferol y Gorchymyn mewn perthynas ag Awdurdodau Tân ac Achub yn dod yn ymgynghorai statudol isod.

Ymgynghori Cyn-ymgeisio Statudol (gan Ddatblygwyr)

Cyn cyflwyno cais cynllunio i'r ACLI, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiad:

- datblygiad gwastraff (fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 o'r DMPWO);
- darparu tai annedd naill ai pan fydd deg neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu neu pan fydd y datblygiad yn cael ei adeiladu ar safle sy'n 0.5 hectar neu'n fwy ac ni wyddys a fydd deg neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu;

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- darparu adeilad neu adeiladau pan fydd y datblygiad yn creu arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- ddatblygiad sy'n cael ei adeiladu ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu fwy.

Dilysu – Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio

Caiff datblygwyr ymgynghori'n wirfoddol ag Awdurdodau Tân ac Achub o 24 Ionawr 2022. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgyngori eu bod wedi ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub mewn perthynas ag unrhyw gais (ar gyfer y mathau o ddatblygiadau a restrir uchod) a gyflwynir i ACLlau ar neu ar ôl 25 Ebrill 2022. Caiff ceisiadau a gyflwynir cyn y dyddiad hwnnw eu dilysu beth bynnag (h.y. hyd yn oed os nad yw'r Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio ffurfiol yn dangos bod ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ag Awdurdod Tân ac Achub) ar yr amod bod yr holl feini prawf dilysu eraill (ffurflen gais, lluniadau ac ati) wedi cael eu bodloni.

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Cyn cyflwyno cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiad:

- datblygiad gwastraff;
- darparu adeilad neu adeiladau pan fydd y datblygiad yn creu arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- datblygiad sy'n cael ei adeiladu ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu fwy.

Ymgynghoriad ar ôl i gais gael ei gyflwyno (gan ACLlau)

Rhaid i ACLlau ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub cyn penderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio (sy'n cael ei ddilysu ar neu ar ôl # Ebrill 2022) ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiad:

- a) datblygiad gwastraff (fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 o'r DMPWO);
- b) darparu tai annedd naill ai pan fydd deg neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu neu pan fydd y datblygiad yn cael ei adeiladu ar safle sy'n 0.5 hectar neu'n fwy ac ni wyddys a fydd deg neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu;
- c) darparu adeilad neu adeiladau pan fydd y datblygiad yn creu arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy;
- d) datblygiad ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu fwy;
- e) datblygiad sy'n darparu deg neu fwy o fflatiau (boed hynny drwy gynyddu nifer y fflatiau mewn adeilad sy'n bodoli eisoes neu fel arall); neu
- f) datblygiad sy'n darparu llety preswyl o ddeg neu fwy o ystafelloedd, nad ydynt yn rhan o dai annedd neu fflatiau, nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion coginio yn unig ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, ystafelloedd gwasanaethu, coridorau, ystafelloedd golchi dillad, cynteddau neu ystafelloedd cyfleustodau;
- g) datblygiad sy'n darparu llety preswyl o ddeg neu fwy o ystafelloedd sy'n rhan o dŷ annedd neu fflat a ddefnyddir fel tŷ amlfeddiannaeth, nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion coginio yn unig ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, ystafelloedd gwasanaethu, coridorau, ystafelloedd golchi dillad, cynteddau neu ystafelloedd cyfleustodau.

Bydd ACLlau yn gyfarwydd â'r mathau o ddatblygwyr a restrir ym mhwyntiau a) – e) uchod. O ran pwyntiau f) ac g), bwriedir i hyn gynnwys mathau eraill o ddatblygiadau 'preswyl' gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gwestai, cartrefi gofal, llety myfyrwyr a thai amlfeddiannaeth.

Er nad yw'n ofynnol i ACLlau ddechrau ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch ceisiadau cynllunio tan 25 Ebrill 2022, os yw Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn cais ffurfiol am ymgynghoriad gan ACLI rhwng 24 Ionawr 2022 a 25 Ebrill 2022, rhaid rhoi ymateb statudol

Caiff yr ACLI barhau i ddefnyddio ei ddisgresiwn wrth benderfynu a ddylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch ceisiadau ar gyfer datblygiadau nad ydynt wedi'u rhestru uchod. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw ymgynghoriad o'r fath.

Ymgynghoriadau ACLlau mewn perthynas â cheisiadau i'w cymeradwyo, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio

Yn unol â'r dull presennol o ymgynghori ag ymgynghoreion statudol, caiff yr ACLI barhau i ddefnyddio ei ddisgresiwn wrth benderfynu a ddylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ymhellach ynghylch ceisiadau am gymeradwyaeth, caniatâd neu gytundeb sy'n gysylltiedig â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn ei gylch i ddechrau. Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd.

Ymgynghoriad ar ôl i gais gael ei gyflwyno (gan Weinidogion Cymru)

Bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub cyn penderfynu ynghylch ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiad:

- datblygiad gwastraff;
- darparu adeilad neu adeiladau pan fydd y datblygiad yn creu arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- datblygiad sy'n cael ei adeiladu ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu fwy.

Ymateb o Sylwedd

Yn yr un modd ag ar gyfer ymgynghoreion statudol presennol, pan ymgynghorir â nhw ynghylch y mathau penodol hyn o ddatblygiad, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu 'ymateb o sylwedd' o fewn amserlen penodedig i ymgynghoriad gan ddatblygwyr yn ystod y cam ymgynghori cyn-ymgeisio, a chan ACLlau a Gweinidogion Cymru yn ystod y camau ymgynghori ar ôl i gais gael ei gyflwyno.

Yn seiliedig ar drafodaethau blaenorol ag Awdurdodau Tân ac Achub a sylwadau a gyflwynwyd drwy'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y Gorchymyn, y materion cynllunio allweddol sydd i'w trafod a ffocws ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub fydd:

- Mynediad – sicrhau bod mynediad digonol i safle ar gyfer nifer a mathau priodol o offer Tân ac Achub;
- Dŵr – sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr at dibenion diffodd tân.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau i hysbysu Awdurdodau Tân ac Achub am y gofynion a osodir arnynt - <https://llyw.cymru/gorchymyn-gweithdrefn-ddatblygu-ymgynghoreion-cymru-diwygiadau-amrywiol-2021-awdurdodau-tan-ac-0>. Mae hyn yn cynnwys cyngor ynghylch yr hyn a all fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol mewn perthynas â materion diogelwch tân. Cyngor ACLlau i weithio gydag Awdurdodau Tân ac Achub os daw unrhyw ymatebion o sylwedd i law, yn ystod y cyfnod ymgynghoreio cychwynnol, ynghylch materion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio. Mae gan ACLlau yr arbenigedd i asesu'r cyngor a gyflwynir iddynt yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, ac i benderfynu ynghylch yr hyn sy'n berthnasol i gynllunio a'r hyn nad yw'n berthnasol i gynllunio, a'r pwysoliad y dylid ei roi fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Trefniadau Trosiannol

Mae trefniadau trosiannol ar gyfer datblygwyr wedi cael eu rhoi ar waith i ystyried yr amser arweiniol sydd ei angen i baratoi cais ar gyfer y mathau penodol o ddatblygiad. Yn ogystal, mae'r gofynion yn cael eu cyflwyno fesul cam i alluogi Awdurdodau Tân ac Achub i addasu iddynt, a bod yn gyfarwydd â cheisiadau sydd wrthi'n cael eu prosesu drwy ymgynghori cyn-ymgeisio â datblygwyr cyn derbyn ceisiadau am ymgynghoriadau gan ACLlau – dyma fydd y rhan fwyaf o'u ceisiadau am ymgynghoriad.

Mae crynodeb o'r trefniadau trosiannol yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

Manylion Cyswllt

Mae Ardaloedd Gwasanaeth pob Awdurdod Tân ac Achub wedi'u cyhoeddi ar eu gwefannau:

- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:
<https://www.northwalesfire.gov.wales/about-us/our-service-areas/our-service-areas/?lang=cy-gb>

Ebost: (Gwynedd ac Ynys Môn): gwynedd.mon@nwales-fireservice.org.uk
(Conwy a Sir Ddinbych): conwy.denbighshire@nwales-fireservice.org.uk
(Wrecsam a Sir y Fflint): flintshire.wrexham@nwales-fireservice.org.uk

- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:
https://www.mawwfire.gov.uk/media/4167/mawwfrs_a4bi.pdf

Ebost: bregs@mawwfire.gov.uk

- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: <https://www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydym-ni/yr-awdurdod-tan/>

Ebost: firesafety@southwales-fire.gov.uk


Monitoring

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad gweithredol yr Awdurdodau Tân ac Achub fel ymgynghorai statudol, drwy'r adroddiad perfformiad blynyddol y mae'n rhaid iddynt ei gyflwyno bob blwyddyn i Weinidogion Cymru yn unol ag Erthygl 15F o'r DMPWO. Bydd crynodeb o'u perfformiad yn cael ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Cymru Gyfan.

Cysylltwch â planning.directorate@llwy.cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Hoffwn eich annog i rannu'r llythyr hwn ag unrhyw drydydd parti perthnasol.







Yn gywir



Neil Hemington
Prif Gynllunyydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Atodiad 1

Trefniadau trosiannol ar gyfer ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub

Gofyniad i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch ceisiadau a gyflwynir (gan gynnwys hysbysiadau wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru yn achos Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol):			
27 Hydref 2021 – 23 Ionawr 2022		24 Ionawr 2022 – 24 Ebrill 2022	25 Ebrill (ymlaen)
Ceisiadau Cynllunio y penderfynir yn eu cylch gan ACLlau			
Datblygwyr i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio ag Awdurdodau Tân ac Achub o dan Erthygl 2D o'r DMPWO	X	Datblygwyr i ddechrau ymgynghoriad cyn-ymgeisio ag Awdurdodau Tân ac Achub *	 Rhaid i'r Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio gynnwys ymgynghori ag Awdurdod Tân ac Achub er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddilysu'r cais
Ymgynghoriad gan ACLlau yn ystod y cam ymgeisio o dan Erthygl 14 o'r DMPWO	X	X	
Gofyniad statudol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw ymgynghoriad a dderbynnir o dan erthyglau 2E a 15E o'r DMPWO (ac erthyglau 10 a 23 o'r DNSWPO)	X		
Ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol			
Ymgynghoriad gan ddatblygwyr (Erthygl 9 o'r DNSWPO) a Gweinidogion Cymru (Erthygl 22 o'r DNSWPO) ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol	X	 (ac eithrio ceisiadau a gyflwynir pan fydd y datblygwr wedi cyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru cyn 24 Ionawr 2022)	 (ac eithrio ceisiadau a gyflwynir pan fydd y datblygwr wedi cyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru cyn 24 Ionawr 2022)

* Er nad oes gofyniad statudol i geisiadau a gyflwynir cyn 25 Ebrill 2022 gynnwys cadarnhad yr ymgynghorwyd ag Awdurdodau Tân ac Achub yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio, dylai datblygwyr ddechrau cynnal ymgynghoriadau yn ystod y cyfnod hwn fel rhan o'r broses ymgynghori cyn-ymgeisio statudol, i baratoi ar gyfer cyflwyno cais cynllunio ar neu ar ôl 25 Ebrill.

- Rhwng gosod y ddeddfwriaeth a 23 Ionawr 2022, ni fydd gan ddatblygwyr nac ACLlau ddyletswydd statudol i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub. Er y caiff Awdurdodau Tân ac Achub ddewis ymateb os ydynt yn derbyn unrhyw geisiadau i ymgynghoriad yn ôl disgrisiwn, nid yw'r gofyniad i ddarparu ymateb o sylwedd yn berthnasol.
- O 24 Ionawr 2022, bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn dechrau derbyn ceisiadau am ymatebion i ymgynghoriadau gan ddatblygwyr sy'n cynnal ymgynghoriadau cyn-ymgeisio (ar gyfer ceisiadau cynllunio yn y dyfodol a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol). Mae'n bosibl hefyd y derbynnir ceisiadau am ymateb i ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw ymgynghoriad cyn-ymgeisio a dderbynnir.
- Ar 25 Ebrill 2022, mae'r gofyniad statudol i ddatblygwyr ac ACLlau gynnal ymgynghoriadau yn dechrau.